OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 1852 (Cy. 202)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

DŴ R, CYMRU

## Rheoliadau'r Rhaglen Weithredu ar gyfer Parthau Perygl Nitradau (Diwygio) (Cymru) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *16 Gorffennaf 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *31 Gorffennaf 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), sydd wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â diogelu dŵ r rhag y llygredd sy'n cael ei achosi gan nitradau o ffynonellau amaethyddol, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Rhaglen Weithredu ar gyfer Parthau Perygl Nitradau (Diwygio) (Cymru) 2003; maent yn gymwys i Gymru ac yn dod i rym ar 31 Gorffennaf 2003.

**Diwygio Rheoliadau'r Rhaglen Weithredu ar gyfer Parthau Perygl Nitradau (Lloegr a Chymru) 1998**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau'r Rhaglen Weithredu ar gyfer Parthau Perygl Nitradau (Lloegr a Chymru) 1998(**3**) ("Rheoliadau 1998") yn cael eu diwygio fel y maent yn gymwys i Gymru yn unol â'r paragraffau canlynol—

(2) Yn rheoliad 2(dehongli) yn y diffiniad o "nitrate vulnerable zones" mewnosodir y geiriau "or 3B" yn union ar ôl "regulation 3".

(3) Yn rheoliad 8(1) (tramgwyddau) —

(i) yn lle "level 5 on the standard scale" rhoddir "the statutory maximum"; a

(ii) hepgorir y geiriau "not exceeding the statutory maximum" yn union ar ôl y gair "fine" lle mae'n ymddangos yr ail dro.

(4) Yn yr Atodlen

(**1**) *Gweler* Erthygl 3 o Orchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 2) 2001 (OS 2001/2555) ac Atodlen 2, paragraff 2 iddo.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 1998/1202.

(i) ym mharagraff 9, ar ôl is-baragraff (2), mewnosodir y canlynol —

"(3) Subparagraph (2)(b)(i) shall have effect in relation to all nitrate vulnerable zones in Wales except Dyserth and Trelech as if "2006" were substituted for "2002"";

(ii) yn lle paragraff 15 rhoddir —

"**15.** Any record of an event made for the purposes of paragraph 14 shall be retained for a period of 5 years after that event.".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*D. Elis-Thomas*

16 Gorffennaf 2003 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Rhaglen Weithredu ar gyfer Parthau Perygl Nitradau (Lloegr a Chymru) 1998.

Yn benodol, mewn perthynas â'r ardaloedd pellach hynny a ddynodwyd yn barthau perygl nitradau yn rhinwedd Rheoliadau Diogelu Dŵ r Rhag Llygredd Nitradau Amaethyddol (Diwygio) (Cymru) 2002, maent yn darparu bod y dyddiad ar gyfer y lluosydd 210kg sydd wedi'i nodi ym mharagraff 9(2)(b)(i) o'r Atodlen yn cael ei estyn i 19 Rhagfyr 2006. Mewn perthynas â'r ardaloedd hynny a ddynodwyd yn barthau perygl nitradau cyn Rheoliadau 2002, 19 Rhagfyr 2002 yw'r dyddiad perthnasol o hyd.

Mae'r Rheoliadau hefyd

(a) yn diwygio'r diffiniad o "nitrate vulnerable zones";

(b) yn diwygio rheoliad 8 i ddarparu, o gollfarnu'n ddiannod, ar gyfer dirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol ac, o gollfarnu ar dditiad, ar gyfer dirwy ddigyfyngiad; ac

(c) yn rhoi paragraff 15 newydd yn lle paragraff 15 o'r Atodlen.